Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Mawrth 4ydd 2025 yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of* **Penbryn Community Council** *Meeting held on Tuesday, March 4th 2025 at Penbryn Memorial Hall*

Yn bresennol/*Present* – Cynghorwyr/*Councillors* Gwyn James, Caerwyn Owen, Gareth Evans, Barri Davies, Teifi Jones, Delfryn Owens, Walwyn Jones, Jonathan Rees

**1 <u>Ymddiheuriadau/Apologies</u>**
Cynghorwyr/*Councillors* William Anwyl, Melva Phillips, Elen Mathias

**2 <u>Datgelu Buddiannau Personol/Disclosure of Personal Interests</u>**
DIM BYD PERTHNASOL/*NO RELEVANCE*

**3 <u>Materion Personol/Personal Matters</u>**
DIM BYD PERTHNASOL/*NO RELEVANCE*

**4 <u>Cofnodion Cyfarfod Mis Chwefror/Minutes of February Meeting – 4/2/25</u>**
Cynigiwyd gan Delfryn eu bod yn gywir a'i eilio gan Teifi
*Proposed to be correct and seconded by Teifi*

**5 <u>Materion yn Codi/Matters Arising</u>**

i) Toiledau Cyhoeddus Tresaith *Public Toilets*
Nododd y Clerc ei fod wedi gohebu â Paul Williams i ofyn am ragor o wybodaeth ynghylch amcangost cynnal y tai bach hyn ynghyd â'r amserlen ar gyfer gwneud penderfyniad terfynol yn y dyfodol agos.
*The Clerk noted that he has corresponded with Paul Williams in order to ascertain further information regarding estimated costs for maintaining these toilets as well as a timetable for decision making in the near future.*

ii) Cyfrifon y Cyngor/*Council Accounts*
Cadarnhawyd gan y Clerc fod y cyfrifon wedi'u cyflwyno i Archwilio Cymru er gwaethaf mân gamddealltwriaeth gan y Cyfrifwyr DMB Davies.
*It was confirmed by the Clerk that the accounts had been submitted to Audit Wales in spite of a slight misunderstanding by the accountants DMB Davies.*

iii) Hyfforddiant Côd Ymddygiad/*Behaviour Code Training*
Gwelwyd bod mwyafrif helaeth yr aelodau wedi medru ymuno â'r hyfforddiant uchod. Y farn gyffredinol oedd ei fod wedi bod yn ddefnyddiol i'w hatgoffa o arferion da cydnabyddedig.
*It was noted that a great majority of members had succeeded in following this training online training session. The consensus was that it was a useful exercise in reminding us of good practice.*

iv) Gohebiaeth Ben Lake/*Ben Lake Correspondence*
Mewn ymateb i'n gohebiaeth ato yn mynegi ein cefnogaeth i'w ymgyrch i wrthwynebu'r Dreth Etifeddol arfaethedig, anfonodd ohebiaeth yn nodi rhai o ddatganiadau ar y testun.
*In response to our correspondence expressing our support to his campaign to oppose the proposed Inheritance Tax, he sent some correspondence noting links to his statements on this subject.*

v) Cyflwr yr Heolydd/*State of the Roads*

Derbyniwyd ymateb i'n hymholiadau oddi wrth y Cyngor Sir ynghylch cyflwr yr heolydd. Yn ôl y datganiad nododd fod y cyllid yn cael ei flaenoriaethu ar sail diogelwch y ffyrdd ac nid ar sail eu cyflwr.

*A response was received from the County Council regarding the state of the roads. According to the statement the finance is allocated and prioritised following safety criteria rather than by their state.*

**6 Cyllid/Finance**

i) Balans/*Balance*

Balans Blaenorol/*Previous Balance* £13025.42

Dim Taliadau/*No Payments*

Balans Newydd/*New Balance* £13025.42

ii) Cymeradwyo Taliadau/*Authorisation of Payments*

| | | |
|---|---|---|
| i) | Cyflog Clerc/*Clerk Salary* | £780.00 |
| ii) | Costau Gweinyddol Clerc/<br>*Clerk's Administrative Costs* | £43.19 |
| iii) | Yswiriant y Cyngor/<br>*Council Insurance* | £785.88 |

**7 Cynllunio/Planning**

i) A250054 Cefn Bryn, Brynhoffnant

DIM GWRTHWYNEBIAD/*NO OBJECTIONS*

**8 Gohebiaeth/Correspondence**

DIM GOHEBIAETH/*NO CORRESPONDENCE*

**9 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

i) Diogelwch ar yr A487/*Road Safety on the A487*

Nododd Teifi fod dwy ddamwain wedi digwydd rhwng Tanygroes a Sarnau yn ystod y mis diwethaf. Y digwyddiad mwyaf difrifol oedd yr un wrth ymyl ei gartref pan darodd beic modur wal wrth geisio goddiweddyd ar y cornel hwnnw. Cytunwyd yn unfrydol y dylai'r Clerc ohebu unwaith eto â'r Asiantaeth Priffyrdd yng Nghonwy er mwyn eu hatgoffa o'r angen sydd am linellau gwyn dwbwl er diogelwch gyrwyr.

*Teifi noted that two accidents had occurred between Tanygroes and Sarnau during the last month. The more serious incident happened by his farm when a motorcyclist struck a wall when attempting to overtake at that corner. It was unanimously agreed that the Clerk ought to correspond with the Highways Agency in order to remind them of the need for double white lines to promote driver safety.*

**10 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting**

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Ebrill 1af 2025 am 7.30 y.h.

*The next meeting will be held on Tuesday, April 1st 2025 at 7.30 p.m.*